CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 10fed o Fai 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel bethania am 7 y.h.

1.0 YN BRESENNOL

Daniel Willaism	Mair Bebb Jones
Peter Simpson	Nerys John
Iestyn Harris	Casi Roberts
Aled Emyr	
Swyddog Ariannol: Wynne Barton	

2.0	**GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL**	
2.1	Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc drwy estyn croeso i bawb oedd yn bresennol; ond cyn cychwyn ar faterion y cyfarfod gofynnwyd a oedd yr aelodau am gynnig aelod am y gadeiryddiaeth.	
3.0	**ETHOL CADEIRYDD**	
3.1	Cynigwyd ac eilwyd Daniel Williams fel Cadeirydd gan y Cynghorwyr peter Simpson a Casi, roedd yn barod i ymgymeryd a'r swydd. Ni chynigwyd aelod arall am y gadeiryddiaeth felly etholwyd Daniel Williams yn unfrydol am y flwyddyn 2016-2017.	
3.0	**DERBYN CWESTIYNAU ODDI WRTH AELODAU O'R CYHOEDD**	
	Dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol	
4.0	**ETHOL IS-GADEIRYDD**	
4.1	Eglurodd y Cadeirydd bod angen ethol Is-Gadeirydd. Cynigwyd ac eilwyd y Cynghorydd Iestyn Harris gan y Cynghorwyr Peter Simpson a Casi. Roedd yn barod i ymgymeryd y swydd. Ni chynigwyd aelod arall am y swydd o is-gadeirydd felly etholwyd iestyn Harris yn unfrydol am y flwyddyn 2016-2017.	
5.0	**ANERCHIAD Y CADEIRYDD**	
5.1	Cyfarchodd Y Cadeirydd yr alodau dwy dalu teyrnged o waith Kenneth Brown fel Cynghorydd a Chadeirydd y Cyngor dros nifer fawr o flynyddoedd. Diolchodd hefyd i'r cynghorwyr eraill a oedd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn; Pat Jones a Louise Hughes. Estynwyd llongyfarchiadau i Sian Gwellian ar ennill yr etholaeth ar ddod yn Aelod Senedol, dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i frwdfrydedd y Cynghorwyr newydd tuag gwaith y Cyngor ac yn sicrhau grantiau I brosiectau gwella'r pentref. Diolchodd i holl aelodau'r Cyngor am eu teyrngarwch drwy gydol y flwyddyn. Diolch i Ann ag Eurgain am gyfieithu a dymuniadau gorau i Eurain yn ei swydd newydd.	

Heather Lynne Jones

	Diolchodd hefyd i'r ddau glerc.	
	Ymddiheuriadau: Sian Gwenllïan, Sarah Riley, Miss Ashley, George Smith, Yasmin Khan, Gruff John	
6.0	**APWYNTIO CYNRYCHIOLWYR**	
6.1	**Llywodraethwyr yr Ysgol** - Mae'r swydd yma yn parhau am gyfnod bywyd etholiad y Cyngor presennol - Cynrychiolydd y Cyngor yw Iestyn Harris	
6.2	**Clwb Pêl Droed Ieuenctid** – etholwyd Gruff John fel cynrychiolydd.	
6.3	**Unllais Cymru** - Cynrychiolir y Cyngor ar Unllais Cymru gan Iestyn Harris a unrhyw Gynghorydd arall a fydd yn gallu mynychu gyda Iestyn Harris neu yn ei le.	
7.0	**ETHOL AELODAU A'R IS-BWYLLGORAU**	
7.1	**Neuadd Goffa** - Dewiswyd Daniel Williams, Iestyn Harris a nerys John a Peter Simpson a'r is-bwyllgor y Neuadd	
7.2	**Mynwent** - Dewiswyd peter Simpson, Nerys Jon ag Aled Emyr fel yr aelodau a'r Is-Bwyllgor y Fynwent.	
7.3	**Y Cloc** - Dewiswyd Daniel Williams, Gruff John a Mair Beb Jones fel yr aelodau a'r Is-Bwyllgor.	
7.4	**Maes Parcio/Lon Las** - Etholwyd Aled Emyr, Iestyn harros, Nerys John a Mair Bebb Jones i'r Is-Bwyllgor.	
7.5	**Llwybrau Cyhoeddus/ Cysodfannau/Meinciau** - Etholwyd George Smith, Nerys John, Iestyn Harris and Mair Bebb Jones i'r Is-Bwyllgor.	
7.6	**Prosiectau –** Nerys John, Sarah Riley, Mair Bebb Jones a Ysmin Khan wedi eu hethol ar yr Is-bwyllgor.	
7.7	**Gwefan –** Casi Aled Emyr a Gruff John wedi eu hethol ar yr Is-bwyllgor.	
8.0	**PENDERFYNU AR NOSON A DYDDIADAU CYFARFODYDD MISOL Y CYNGOR**	
8.1	Penderfynwyd a pharhau a'r trefniad cyfarfod misol presennol.	
9.0	**SEDDI GWAG**	
9.1	Mae un sedd wag yn bodoli.	
10.0	**ARCHWILIWR MEWNOL**	
10.1	Archwilywr o fewn y Cyngor fydd Iestyn Harris a Sarah Riley.	
10.2	Penderfynwyd mai yr Archwilwr Mewnol fydd Mr John D Roberts. Y Swyddog Ariannol i anfon llythyr gwahoddiad iddo.	
11.0	**ADRODDIAD CYLLID**	
11.1	Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllidol 01/04/2015 – 31/03/2016 gan y Swyddog Ariannol. Cynnigwyd ac eilwyd yr adroddiad fel un cywir ac fe'i derbyniwyd a'u mabwysiadu yn unfrydol gan y Cyngor.	
11.2	Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Arianol am ei waith trylwyr bob amser.	
12.0	**POLISIAU'R CYNGOR**	
12.1	Penderfynodd y Cyngor bod y polisau, Rheoli Risg, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau ariannol a Rheolaeth Mewnol dim angen eu nhewid felly fe'u mabwysiadwyd eto am y flwyddyn.	

13.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR CYFLOGAETH**	
13.1	Nid oedd y pwyllgor wedi cyfarfod hyd yma; bydd yn cyfarfod o fewn y mis a bydd adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.	
	Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben oddeutu 7.45 o'r gloch.	